# Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd

**Cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Hydref 2013**
**Ystafell Cynhadledd 1, Rovacabin, Llangefni**

| | | |
|---|---|---|
| **Presennol:** | **Cyngor Sir Ynys Môn** | |
| | Cyng. Ann Griffith | |
| | Cyng. Kenneth Hughes | |
| | Cyng. Victor Hughes | |
| | Cyng. WT Hughes | |
| | **Cyngor Gwynedd** | |
| | Cyng. John Wyn Williams | |
| | Cyng. Gwen Griffith | |
| | Cyng. John Brynmor Hughes | |
| | Cyng. John Pugh Roberts | |
| | Cyng. Dafydd Meurig (eilydd) | |
| | **Swyddogion:** | |
| | Gareth Jones | Rheolwr Gwasanaeth Cynllunio & Amgylcheddol (CG) |
| | Jim Woodcock | Pennaeth Cynllunio & Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd (CSYM) |
| | Nia Davies | UPCC – Rheolwr |
| | Heledd Fflur Jones | UPCC - Arweinydd Tîm |
| | Eirian Harris | UPCC - Cynorthwyydd Cynllunio Cefnogol |
| **Ymddiheuriadau:** | Cyng. Lewis Davies - CSYM | |
| | Cyng. Dyfrig Jones - CG | |
| | Cyng. J. Arwel Roberts - CSYM | |
| | Cyng. Nicola Roberts - CSYM | |
| | Cyng. Gethin Williams - CG | |

1. **YMDDIHEURIADAU**
   Fel y nodwyd uchod.

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**
   Dim

3. **MATERION BRYS**
   Dim

4. **COFNODION**
   Derbyniwyd Cofnodion cyfarfod Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a gynhaliwyd 24 Medi 2013 fel rhai cywir.

5. **DIWEDDARIAD AM WAITH PARATOI PAPUR TESTUN 18: TAI MARCHNAD ANGEN LLEOL**

   Cyflwynwyd adroddiad sydd yn diweddaru gwaith paratoi papur testun 18. Mae'r adroddiad yma'n rhoi diweddariad mewn perthynas â'r wybodaeth a gyflwynwyd yn flaenorol.

   Mae rhaid cysidro beth fyddai polisi o'r fath yma yn ei gyflawni a pwy fyddai yn ei gynorthwyo. Felly rhaid cael tystiolaeth gref a chadarn i gyfiawnhau'r polisi yma.

   Mae angen cysidro'r canlynol:

   - Marchnad tai canolraddol
   - Gweithwyr allweddol
   - Ehangu cyfleoedd yn y farchnad dai lleol
   - Mewnfudo / Ail gartrefi

   O ran materion ieithyddol a diwylliannol nodwyd na ellir creu polisi sy'n canolbwyntio ar iaith meddianwyr tai newydd. Mae NCT 20 ' Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (Hydref 2013) yn datgan 'Dylid gofalu nad yw polisïau'r CDLl sy'n ystyried anghenion a buddiannau'r Gymraeg yn gwahaniaethu yn erbyn unigolion ar sail eu gallu ieithyddol".

   Fel canlyniad o drafodaethau o fewn UPCC ac Uned Ymchwil Cyngor Gwynedd, mae dangosyddion wedi eu creu i geisio adnabod ardaloedd penodol o fewn ardal y Cynllun cynllunio - mae tabl 2.6 yn rhoi darlun o'r rhain.

   Pwyntiau a Godwyd:

   - Cyfeiriwyd tuag at 'tai am oes' ac yr angen i gynllunio ar gyfer newidiadau mewn anghenion fel anabledd a henaint.
   - Polisi pwysig i'w hyrwyddo yn enwedig mewn ardaloedd lle mae pwysau ail gartrefi.
   - Pwyslais ar yr angen i gael tystiolaeth gadarn i gyfiawnhau polisi o'r fath.
   - Sut mae diffinio 'lleol'?
   - Ardaloedd llechi gyda stoc tai fforddiadwy ond mewn cyflwr gwael.

Ymatebion:

- Mae cynlluniau tai presennol yn cael eu hystyried ar gyfer ‘tai am oes’
- Anghenion o fewn ardaloedd ddim yn berthnasol i bob ardal.
- Angen trafodaethau gyda chwmnïoedd morgeisi i sefydlu os oes angen o fewn y farchnad.
- Hefyd, angen rhagor o drafodaethau i ddiffinio ‘lleol’.
- Ail-adrodd i’r Panel yn Rhagfyr 2013.

**6. DIWEDDARIAD AM DREFNIADAU I GYNNAL SEMINAR AM SAFLEOEDD TAI POSIB**

Cyflwynwyd adroddiad gan Heledd Fflur Jones, yn diweddaru’r gwaith ar Safleoedd Posib. Esboniwyd fod angen darpariaeth ar gyfer 7665 o unedau yn ystod cyfnod y cynllun 2011 - 2026, sef Opsiwn Twf Canolig. Mae unedau sydd wedi eu datblygu ers Ebrill 2011 ac unedau gyda chaniatâd cynllunio yn barod yn cael eu cynnwys yn y ffigwr lefel twf. Er mwyn diwallu’r angen bydd yna ddibyniaeth ar safleoedd ar hap yn ogystal â dynodi tir yn benodol ar gyfer tai.

Mae’r UPCC wedi paratoi gwybodaeth ar gyfer cynnal seminarau i dderbyn mewnbwn gan Aelodau Lleol a’r Cynghorau Cymuned / Dinas a Trefol o’r ddwy sir.

Fe fydd yna gyfres o dri seminar yng Ngwynedd (oherwydd maint yr ardal) ac un ym Môn, i’w cynnal ym mis Rhagfyr. Yn y seminar fe fydd yna gyflwyniad, ac wedyn grwpiau yn cael eu ffurfio i drafod. Ar ôl y seminarau fydd yna gyfle i’r Cynghorau Cymuned / Dinas a Trefol i gyflwyno’u sylwadau.

Pwyntiau a Godwyd:

- Angen pwysleisio pwysigrwydd i’r Cynghorau Cymuned / Dinas a Trefol eu bod yn cyfrannu at y broses.
- Sut fath ddatblygiadau fyddant - hunan adeiledig neu farchnad agored?

**7. NODYN CYFARWYDDYD TECHNEGOL (NCT) 20: CYNLLUNIO A’R IAITH GYMRAEG**

Cyflwynwyd adroddiad gan Nia Davies yn amlinellu prif bwyntiau ac oblygiadau gyda’r Nodyn Cyfarwyddyd Technegol 20 diwygiedig a gyhoeddwyd yn Hydref 2013.

Angen rhoi ystyriaeth i’r NCT 20 wrth baratoi’r Cynllun Datblygu Lleol y Cyd. Bydd ystyriaeth yn cael ei roi hefyd tuag at ‘Canllaw ymarferol ar gyfer ystyried y Gymraeg mewn Cynlluniau Datblygu’ fydd yn cael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru yn 2014.

Mae’r NCT 20’n dweud na fydd angen Datganiad Ieithyddol adeg cais cynllunio unigol, gan y bydd ystyriaeth i effaith ieithyddol wedi cael ei wneud yn barod.

Rhaid casglu a chofnodi tystiolaeth, ac mae Cyfrifiad 2011 yn un fath o ffynhonnell. Hefyd, fel rhan o’r prosiect tai, mae holiadur wedi cael ei yrru allan, ac mae rhan o hwn yn holi am yr iaith Gymraeg - pa mor fyw ydy’r iaith Gymraeg. Mae gan yr Uned dystiolaeth am ei ddefnydd yn yr ysgol, ac fe fydd hyn yn ffurfio rhan o’r dystiolaeth.

Fel mae'r CDLl yn cael eu ffurfio bydd angen ail gymhwyso'r Asesiad Effaith Ieithyddol ar bob cam.

Pwyntiau a Godwyd:

- Sut rydym yn ymdopi gydag ardaloedd gwyliau ond lle mae'r iaith Gymraeg dal yn gryf?
- Cymraeg o fewn addysg yn bwysig felly rhaid cael polisïau iaith gref mewn ysgolion. Ni ellir dibynnu ar y sustem gynllunio yn unig.
- Rhaid bod yn ofalus wrth ddehongli ffigyrau - pa mor gywir ydynt?
- Cyngor Gwynedd wedi ffurfio Gweithgor Iaith.

**8. GWELEDIGAETH AC AMCANION STRATEGOL Y CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD**

Cafwyd adroddiad ei gyflwyno gan Nia Davies, sydd yn codi ymwybyddiaeth y Panel o sylwadau a dderbyniwyd am weledigaeth ac amcanion strategol y CDLl ar y Cyd. Fe fydd yr adroddiad llawn ar gael i'r cyhoedd pan fydd y Cynllun Adnau yn cael ei gyhoeddi.

Rhoddwyd crynhoad o'r sylwadau a dderbyniwyd yn Rhan 1 o Atodiad 1, sydd yn berthnasol i eirfa'r Weledigaeth ac Amcanion Strategol. Ar ôl rhoi ystyriaeth i'r sylwadau, derbyniwyd fod cyfiawnhad i newid geirfa'r weledigaeth a'r amcanion strategol. Mae awgrymiadau o ran yr eirfa newydd ar gyfer y weledigaeth wedi eu cyflwyno yn Rhan 2 o Atodiad 1, gyda Rhan 3 yn cyflwyno diwygiadau posib i'r amcanion strategol.

Pwyntiau a Godwyd:

- Awgrymwyd geirfa newydd - Rhan 2, ail bwynt bwled sef "Rhaid hybu gweithgaredd ymysg pobl ifanc."
- Angen trafodaethau ynglŷn â defnyddio siopau gwag a'u haddasu i dai / fflatiau.
- Angen gwarchod canol trefi ond ail edrych ar bolisi i ddefnyddio adeiladau gwag.
- Awgrymwyd y dylai'r Cynllun Adnau fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Panel/ pwyllgor ar gyfer gwneud penderfyniad ddangos unrhyw eiriad a newidiwyd mewn teip bras er mwyn amlygu nhw i'r Aelodau**.**

**9. RHAGOLYGON POBLOGAETH SAIL 2011 – Y PRIF UN A'R RHAI AMGEN**

Cyflwynwyd cyfres o sleidiau yn Rhagolygon Poblogaeth Sail 2011.

- Ffigyrau prif ragolygon wedi eu cyhoeddi ym mis Gorffennaf ac erbyn nawr 'Rhai Amgen' wedi cael eu cyhoeddi gan y Llywodraeth.
- Yn unol gyda Polisi Cynllunio Cymru'r rhain a'r rhagolygon aelwydydd fydd angen eu hystyried yn hytrach na'r rhagolygon sail 2008 wrth ddatblygu'r Cynllun Adnau.
- Deallir y caiff y rhagamcanion aelwydydd sail 2011 eu cyhoeddi ym mis Tachwedd/ Rhagfyr 2013.